SWYDDOGOL

# Gorffennaf 2022 Cyfarwyddyd ar gyfer tystion heddlu mewn ymchwiliadau SAYH.

Gorffennaf 2022

# Cynnwys

1. Cefndir ....................................................................................................3
2. Pwrpas y cyfarwyddyd hwn ...................................................................3
3. Beth y gall tyst heddlu ei ddisgwyl gan y SAYH ..................................4
4. Cydweithrediad ag ymchwiliad ...............................................................6
5. Mae SAYH yn disgwyl ...........................................................................7
6. Diffyg cydweithrediad.............................................................................9

# 1. Cefndir

1.1. Mae Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (SAYH) yn ymchwilio'n annibynnol i ddigwyddiadau difrifol a sensitif a honiadau yn ymwneud â'r heddlu. Ar ddechrau pob ymchwiliad, rydym yn amlinellu pa rannau o'r digwyddiad y byddwn yn ymchwilio iddynt,  manylir ar hyn yn ein cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad.

1.2. I gynnal ymchwiliadau yn effeithiol, mae SAYH yn dibynnu ar gydweithrediad yr heddlu i ddarparu'r dystiolaeth sydd ei hangen arnom mewn dull amserol. Yn ei dro, mae angen i'r SAYH fod yn glir am yr hyn y gall tystion heddlu ei ddisgwyl yn ystod ymchwiliad, ac yn gyson yn ein hymagwedd, neu'n gallu esbonio pam nad ydym.

1.3. Ni ddylai'r cyfarwyddyd gael ei ddarllen fel pe byddent yn gwneud unrhyw sylw ar y graddau y mae tystion heddlu yn cydweithredu ar hyn o bryd ag ymchwiliadau SAYH; yn hytrach mae'n amlinellu sut rydym yn ystyried mae cydweithrediad yn edrych mewn termau cyffredinol, a'r hyn y gall tystion heddlu ddisgwyl oddi wrthym. Mae darpariaeth gynnar adroddiadau tystion digon manwl yn allweddol i ni gwblhau ymchwiliadau amserol a chadarn, sydd er budd pawb.

# 2. Pwrpas y cyfarwyddyd hwn

2.1. Pwrpas y cyfarwyddyd anstatudol hwn yw darparu gwybodaeth i **dystion heddlu** (sy'n cynnwys swyddogion a staff yn ogystal ag eraill, gweler troednodyn isod)[1] ar yr hyn y gallant ei ddisgwyl pan ofynnir iddynt ddarparu adroddiad tyst; y wybodaeth y byddwn yn darparu iddynt i'w helpu i baratoi; a sut y byddwn yn cyrraedd penderfyniadau ar y ffordd fwyaf briodol o ymgysylltu â nhw. Mae'r cyfarwyddyd yn ymwneud ag ymchwiliadau annibynnol SAYH; fodd bynnag, gall adrannau safonau proffesiynol heddlu ddymuno ei ystyried hefyd mewn perthynas ag ymchwiliadau a gynhelir ganddynt. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn effeithiol o ddyddiad y cymeradwyo a chyhoeddi ar wefan y SAYH https://www.policeconduct.gov.uk/cy.

2.2. Mae'r cyfarwyddyd hefyd yn esbonio bod gennym dyst heddlu sy'n cael ei ofyn i ddarparu adroddiad.

2.3. Nid yw'r cyfarwyddyd yn gymwys i **bynciau**[2]. Os, yn ystod cwrs ymchwiliad, rydym yn ystyried bod awgrym y gall tyst fod wedi cyflawni camwedd troseddol neu wedi ymddwyn mewn ffordd a fyddai'n cyfiawnhau dod ag achos disgyblu[3] bydd y tyst yn

[1] At ddiben y cyfarwyddyd hwn, mae tyst heddlu yn: swyddog heddlu; • cwnstabl arbennig o dan gyfarwyddyd a rheolaeth prif swyddog; • aelod o staff heddlu (fydd yn cynnwys y rheini â phwerau dynodedig o dan adran 38(2) Deddf Diwygio'r Heddlu 2002: swyddogion cymorth cymunedol, swyddogion cadw, swyddogion ymchwiliol a swyddogion hebrwng); • aelod o staff wedi'i gontractio allan; • unigolyn sy'n gwasanaethu â'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol.

[2] Pwnc heddlu yw unigolyn o dan ymchwiliad ar gyfer camweddau troseddol honedig a/neu doriadau perthnasol o safonau proffesiynol yr heddlu.

[3] 'Mae 'Achos disgyblaethol' yn golygu unrhyw achos o dan y Rheoliadau Heddlu (Ymddygiad) 2020 ar wahân i'r Broses Adolygu Ymarfer Myfyriol. Nid yw'n cynnwys gweithdrefnau perfformiad anfoddhaol.

dod yn bwnc ymchwiliad, a bydd yn cael ei hysbysu o hyn trwy gyfrwng hysbysiad ffurfiol priodol.

# 3. Beth y gall tyst heddlu ei ddisgwyl gan y SAYH

3.1. Byddwn yn rhoi gwybod i dystion heddlu mewn dull amserol os ydynt yn cael eu trin fel tystion at ddibenion yr ymchwiliad ac nad ydynt yn bwnc yr ymchwiliad a'u hysbysu'n gyflym os yw eu statws yn newid i fod yn bwnc yn ystod cwrs ymchwiliad (yn amodol ar y prawf niwed).

3.2. Byddwn yn esbonio cwmpas a phwrpas yr ymchwiliad yn eglur. Byddwn yn darparu esboniad i dyst yr heddlu, lle'n bosibl, o'r hyn rydym yn ymchwilio iddo, a datgeliad ystyrlon ar gam priodol i'w cynorthwyo (bydd hyn bob amser yn destun y prawf niwed[4]).

3.3. Byddwn yn cadarnhau mor gynnar â phosibl pwy yw'r prif dystion plismona[5], a thystion plismona eraill. Byddwn yn esbonio sut mae'r ymchwiliwr yn rhag-weld y gall y tyst heddlu gynorthwyo'r ymchwiliad. Yn benodol, byddwn yn darparu manylion i dystion heddlu o:

- pam mae'r didgwyddiad yn cael ei ymchwilio
- natur y digwyddiadau y gall y tyst heddlu fod wedi bod yn dyst iddynt; a'r
- fath ddatgeliad mae ymchwiliwr SAYH yn ei ystyried yn angenrheidiol a chymesur, ar gam priodol

3.4. Mewn rhai achosion, yn dibynnu ar ba mor berthnasol mae'r dystiolaeth y gall tyst heddlu ei ddarparu, bydd hi'n well i dyst heddlu ddarparu adroddiad i ymchwilwyr SAYH yn bersonol.

Mae rhestr heb fod yn gynhwysfawr o enghreifftiau o'r mathau o ymchwiliadau a allai syrthio i mewn i'r categori hwn wedi'i amlinellu isod. Fodd bynnag, ym mhob achos, bydd yr ymchwiliwr yn ystyried natur y dystiolaeth y gall y tyst ei roi, a sut i gyflawni

---

[4] Mae Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020 (rheoliad 6) yn datgan bod rhaid i wybodaeth mewn dogfennau sy'n cael eu datgan i fod yn destun prawf niwed o dan y Rheoliadau hyn beidio â chael eu cyflenwi i'r swyddog dan sylw cyn belled â bod yr awdurdod priodol yn ystyried bod atal datgeliad i'r swyddog yn- (a) angenrheidiol at ddiben atal datgelu gwybodaeth yn gynamserol neu'n amhriodol sy'n berthnasol i, neu a all gael ei ddefnyddio mewn, unrhyw achos troseddol; (b) angenrheidiol er budd diogelwch cenedlaethol; (c) angenrheidiol at ddiben atal neu ddarganfod trosedd, neu arestio neu erlyn troseddwyr; (ch) angenrheidiol at ddiben atal neu ddarganfod camymddwyn gan swyddogion heddlu eraill neu aelodau staff heddlu neu eu harestio ar gyfer y fath faterion; (d) wedi'i gyfiawnhau ar y sail y byddai darparu'r wybodaeth yn cynnwys ymdrech anghymesur o gymharu â difrifoldeb yr honiadau yn erbyn y swyddog; (dd) angenrheidiol a chymesur ar gyfer amddiffyn lles a diogelwch unrhyw hysbysydd neu dyst, neu (e) fel arall er budd y cyhoedd.

[5] Tyst plismona allweddol yw tyst sydd wedi cael rhan arwyddocaol a/neu wedi tystio a/neu'n honni ei fod wedi tystio, yn weledol neu fel arall, i farwolaeth neu anaf ddifrifol gyfan neu ran ohonynt, neu ddigwyddiadau wedi'u cysylltu'n agos â nhw. (Paragraff 9, Cyfarwyddyd statudol i'r llu heddlu ar gyflawni tystiolaeth orau mewn Materion marwolaeth ac anaf ddifrifol)

tystiolaeth orau a hwytluso'r ymchwiliad. Gall lle roedd rôl y tyst yn ymylol i'r digwyddiadau dan ymchwiliad neu os nad oeddent yn dystion i ddigwyddiadau'n uniongyrchol benderfynu y bydd datganiad hunanysgrifenedig yn ddigonol.

Enghreifftiau o fathau o achosion/ystyriaethau lle gall ymchwilwyr SAYH fod yn fwy tebygol o gymryd datganiadau yn bersonol/yn rhithiol:

- Erthygl 2/3 achosion Deddf Hawliau Dynol 1998 (hawl i fywyd a hawl i atal rhag poenydio/triniaeth annynol)
- Unrhyw ymchwiliad troseddol
- Ymchwiliadau camymddwyn difrifol
- Unrhyw achos lle pennir bod lefel uchel o ddiddordeb cyhoeddus
- Ymchwiliadau lle mae materion wedi cael eu hadnabod ynghylch y penderfyniadau a neu weithredoedd tystion heddlu sydd ddim yn awgrym o droseddoldeb na chamymddwyn, ond lle gall Gwneuthurwr Penderfyniadau SAYH ystyried y gall argymhellion dysgu gael eu gwneud, a/neu (i swyddogion heddlu yn unig) a ddylai'r swyddog gael ei atgyfeirio i'r broses Adolygu Ymarfer Myfyriol (RPRP), y naill na'r llall yn sancsiwn disgyblaethol. Gall cyfweliad fod yn well i adnabod os byddai'r naill cam gweithredu neu'r llall yn briodol.
- Lle mae tyst wedi bod yn dyst uniongyrchol i'r digwyddiad materol a/neu wedi chwarae rhan mewn gwneud penderfyniad neu wedi defnyddio pŵer heddlu.

3.5. Lle cymerir datganiad gan ymchwilwyr SAYH, gan adlewyrchu'r disgwyliadau sydd gennym ar gyfer tystion heddlu wedi'i amlinellu ym mharagraff 5.4 isod, bydd staff SAYH yn mynychu'n brydlon (heblaw bod esboniad rhesymol am yr oedi), bydd yn aros am y cyfarfod cyfan (oni bai y cytunir fel arall) a bydd yn trin tystion heddlu ac unrhyw un gyda nhw â chwrteisi, a'r broses â pharch.

3.6. Lle mae tyst heddlu yn darparu datganiad wyneb yn wyneb neu'n rhithiol (neu'r ddau, os oes mwy nac un cyfarfod), gall y tyst heddlu fynychu ar ei ben ei hun, neu gall ddewis gael cwmni i gyfweliad tyst gan unigolyn arall. Gall unigolyn sy'n dod yn gwmni fod yn ffrind heddlu, cyfreithiwr, cynrychiolydd undeb llafur neu unrhyw unigolyn arall nad yw'n ymwneud â'r mater. Ni all unigolyn sy'n dod yn gwmni ateb unrhyw gwestiynau a ofynnir i'r tyst heddlu yn ystod y cyfweliad. Lle mae ymchwilwyr SAYH yn casglu datganiad tyst i gael ei ddefnyddio fel tystiolaeth ysgrifenedig, bydd hyn yn cael ei gwblhau yn unol ag adran 9 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1967 (adran 9 datganiad tyst) ar ffurflen MG11 ym mhob achos, os yw'r achos yn cael ei ddynodi'n ymchwiliad troseddol neu beidio.[6] Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi cynhyrchu cyfarwyddyd ymarfer gorau buddiol ar gyfer datganiadau a gymerir dros y ffôn, a ddylai gael ei ddilyn lle bynnag ei fod yn bosibl.[7] Gellir darparu'r datganiadau yn Saesneg neu'r Gymraeg. Bydd SAYH yn ystyried unrhyw gyfarwyddyd Iechyd

[6] https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/witnesses#a03
[7] https://www.cps.gov.uk/sites/default/files/documents/legal_guidance/Telephone-Statements-Best-Practice-Guidance.pdf

cyhoeddus gan y Llywodraeth sy'n gweithredu ar y pryd ac unrhyw faterion iechyd a diogelwch perthnasol neu weithredol/logistaidd.

3.7. Lle ym marn yr ymchwiliwr mae'r dystiolaeth a geisir yn uniongyrchol a/neu'n ymylol, bydd yr ymchwiliwr yn ystyried gofyn i'r tyst heddlu ddarparu datganiad hunanysgrifenedig; gall yr ymchwiliwr fodd bynnag ofyn am gyfarfod wyneb yn wyneb/rhithiol ar unrhyw adeg lle mae mwy o fanylion yn ofynnol. Mae'n rhaid i'r datganiad amlinellu tystiolaeth tyst yr heddlu, yn unol ag adran 9 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1967 (gan ddefrnyddio ffurflen MG11) ac mae'n rhaid darparu digon o fanylion (gall hyn amrywio gan ddibynnu ar y cam mae'r adroddiad yn cael ei ddarparu ynddo a pha ddatgeliad sydd wedi cael ei roi i'r tyst ar yr adeg honno).

3.8. Rhoddir amser rhesymol i dystion heddlu i gyflwyno datganiad ysgrifenedig ynddo: bydd SAYH fel arfer yn disgwyl derbyn datganiad ysgrifenedig o fewn 14 diwrnod o gais. Os nad yw'r tyst heddlu yn gallu darparu adroddiad tyst yn yr amser hwn (neu os yw hyn yn debygol o gael ei oedi), er enghraifft oherwydd ei fod yn dymuno ceisio cyngor, dylai gysylltu â'r ymchwiliwr cyn gynted â phosibl ar dderbyn cais ag esboniad o'r rheswm pam nad yw'n gallu cydymffurfio ac i gytuno i amserlen hirach. Nid yw ceisiadau am symiau maith o amser i gwblhau datganiad yn debygol o fod yn rhesymol heb amgylchiadau lleddfol eraill (megis bod ddim yn ffit ar gyfer cyfweliad am resymau meddygol), gan y gall oedi sylweddol gael effaith negyddol ar gynnydd yr ymchwiliad. Ar ôl adolygu datganiad ysgrifenedig, gall yr ymchwiliwr ofyn am gyfarfod wyneb yn wyneb/rhithiol i egluro neu archwilio unrhyw bwyntiau ychwanegol neu gall ofyn am gwestiynau ychwanegol yn ysgrifenedig.

# 4. Cydweithrediad ag ymchwiliad

4.1. Fel yr amlinellir yng Nghyfarwyddyd y Swyddfa Gartref,[8] *"mae'r ddyletswydd i gydweithredu yn ffurfio rhan o'r safonau Ymddygiad Proffesiynol o dan "Dyletswyddau a Chyfrifoldebau". Mae'n atgyfnerthu'r cyfrifoldeb sydd gan swyddog heddlu i gydweithredu'n llawn lle mae'n dyst mewn ymchwiliad, ymholiad neu achos ffurfiol arall. Y cyfrifoldeb yw cymryd rhan yn agored ac yn broffesiynol fel tyst mewn amrywiaeth o amgylchgiadau lle mae'r swyddog yn dyst mewn ymchwiliad i gamymddygiad swyddog arall, boed hynny'n ymchwiliad gan SAYH neu'r llu ei hun."*[9]

[8] Ymddygiad Cyfarwyddydd y Swyddfa Gartref, Effeithlonrwyddd ac effeithiolrwydd: Cyfarwyddyd Statudol ar Safonau Proffesiynol, Perfformiad a Chywirdeb ac Effeithiolrwydd mewn Plismona, cyhoeddwyd 5 Chwefror 2020. Cafodd y ddylelswydd ei hadolygu yn Chwefror 2020 a bydd unrhyw adroddiadau a ddarperir ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu cwmpasu ganddi ni waeth pryd y dechreuodd yr ymchwiliad.

[9] staff Heddlu gael eu cyflogi o dan delerau ac amodau cytundebol. Mae'r safonau ymddygiad ar gyfer staff mewn llawer o enghreifftiau yn adlewyrchu'r safonau ymddygiad proffesiynol a amlinellir yn Atodlen 2 i Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020. Mae rhagor o wybodaeth wedi'i chynnwys yn Llawlyfr Cyngor Staff Heddlu: https://www.local.gov.uk/our-support/workforce-and-hr-support/police/police-staff/police-staff-councilhandbook.

4.2. Mae'r safonau ymddygiad proffesiynol yn gymwys i dystion heddlu sy'n parhau i wasanaethu yn unig, fodd bynnag mae SAYH yn annog cyn-swyddogion heddlu a staff i ddarparu cydweithrediad priodol yn ystod ymchwiliadau.

4.3. Er nad yw dyletswydd cydweithredu yn ddyletswydd gonestrwydd (fel sy'n gymwys mewn achos adolygiad barnwrol) mae o gymorth i adolygu sylw barnwrol mewn perthynas â gonestrwydd wrth ystyried sut y dylai tystion heddlu ymddwyn i arddangos eu bod yn cyfranogi'n agored ac yn broffesiynol. Gofyniad allweddol yw fod rhaid i ddatganiadau tystion beidio â chymylu naill ai'n fwriadol neu'n anfwriadol feysydd o berthnasedd canolog, a dylai'r rheini sy'n eu drafftio edrych yn ofalus ar y geiriad a ddefnyddir i sicrhau nad yw'n cynnwys unrhyw amwysedd ac nad yw'n gynnil â'r gwirionedd. *[Citizens UK v SSHD [2018] EWCA Civ 1812, [2018] 4 WLR 123 at §106].*

4.4. Mae enghreifftiau o'r hyn a allem ystyried i fod yn ddiffyg cydweithredu gynnwys methu mynychu ar gyfer cyfweliad, neu ddarparu datganiad ysgrifenedig nad yw yn y fformat gofynnol a/neu nad yw'n darparu digon o fanylion. Amlinellir enghreifftiau'r dyfodol yn adran 6.

4.5. O dan reoliadau'r Heddlu (Cwynion ac Ymddygiad) 2013, mae gan SAYH y pŵer i orfodi tystion heddlu sy'n gwasanaethu i fynychu cyfweliad. Lle gelwir ar y pŵer hwn ac nad yw'r tyst heddlu yn gallu mynychu cyfweliad ar y dyddiad y gofynnwyd amdano, mae'n rhaid i'r tyst gynnig dyddiad ac amser rhesymol o fewn pum diwrnod gwaith a bennir gan yr ymchwiliwr.

# 5. Mae SAYH yn disgwyl

5.1. Bod tystion heddlu yn darparu adroddiad mewn dull amserol: rydym yn disgwyl y bydd y tyst yn darparu adroddiad yn bersonol/yn rhithiol neu yn ysgrifenedig fel y gofynnir gan y SAYH.

5.2. Bydd tystion heddlu allweddol[10] yn cydymffurfio â chyfarwyddyd statudol SAYH ar weithdrefnau ôl-ddigwyddiad[11], gan gynnwys peidio ag ymgynghori ag eraill yn bresennol yn y digwyddiad cyn i ac ar ôl iddynt ddarparu adroddiadau, a'r ddyletswydd i gadw tystiolaeth, neu esbonio pam na allent gydymffurfio.

5.3. Lle mae adroddiadau yn cael eu darparu fel rhan o weithdrefnau ar ôl digwyddiad, dylai'r rhain fod yn unol ag adran 9 o'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol (gan ddefnyddio ffurflen MG11). Bydd y Rheolwr Ôl-ddigwyddiad yn penderfynu mewn ymgynghoriad â SAYH pa ddeunydd tystiolaethol y gall tyst heddlu gael mynediad

[10] Tyst plismona allweddol yw tyst sydd wedi cael cyfranogaeth sylweddol a/neu wedi tystio, neu'n honni ei fod wedi tystio, yn weledol neu fel arall i, farwolaeth neu anaf ddifrifol yn ei chyfanrwydd neu'n rhannol, neu ddigwyddiadau sy'n gyslltiedig yn agos â hi. (Paragraff 9, Cyfarwyddyd statudol i'r llu heddlu ar gyflawni tystiolaeth orau mewn Materion marwolaeth ac anaf ddifrifol)

[11] https://www.policeconduct.gov.uk/cy/publications/canllawiau-statudol-ir-heddlu-ar-sicrhaur-dystiolaeth-orau-mewn-materion-marwolaeth-ac

iddo cyn rhoi ei adroddiad. Yn dilyn hyn mewn ymchwiliadau SAYH bydd ymchwiliwr SAYH yn penderfynu hyn.

5.4. Bod tyst yr heddlu yn mynychu cyfarfodydd yn bersonol/yn rhithiol os gofynnir, heblaw y cytunir fel arall gan y SAYH. Bydd tyst yr heddlu yn mynychu yn brydlon (heblaw bod esboniad rhesymol yn cael ei roi am yr oedi), a'i fod yn aros am y cyfarfod cyfan (heblaw yr esgusodir fel arall). Eu bod yn trin staff SAYH â chwrteisi, a'r broses â pharch. Gosodir disgwyliad cyfatebol ar staff SAYH yn adran 3.5.

5.5. Bydd adroddiadau tystion yr heddlu yn llawn a gonest: rydym yn deall y gall tystion heddlu ddarparu adroddiad o ddigwyddiadau maen nhw wedi tystio iddynt yn unig a byddwm yn disgwyl iddynt ateb unrhyw gwestiynau yn llawn â'r wybodaeth sy'n hysbys i dyst yr heddlu ar y pryd hwnnw. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl lle mae penderfyniadau wedi cael eu gwneud gan dyst heddlu, bydd y tyst yn darparu ei resymeg dros wneud y penderfyniadau hynny.

5.6. Bod unrhyw anawsterau a wynebir mewn darparu adroddiad llawn a gonest yn cael eu hadnabod a'u cyfathrebu'n syth. Dylai'r rhain fod mewn amgylchiadau eithriadol yn unig, er enghraifft os yw tyst yn gofyn an ragor o wybodaeth benodol i adnabod beth mae nhw'n cael ei ofyn i ddarparu adroddiad amdano, neu fod rhesymau meddygol pam nad yw tyst yn gallu darparu adroddiad ar adeg y cais (wedi'i gefnogi gan dystiolaeth feddygol os yw'n ofynnol).

5.7. Bydd tystion heddlu yn ymateb yn syth i gwestiynau dilynol neu geisiadau am eglurder; rydym yn disgwyl i dyst yr heddlu ymateb yn gadarnhaol i unrhyw gwestiynau atodol rhesymol ac angenrheidiol gan ymchwiliwr yn ymwneud ag ymateb neu ddatganiad cynharach, yn bersonol, neu'n ysgrifenedig

5.8. Gall tystion heddlu dderbyn cyngor cyfreithiol gan eu cyfreithwyr mewn perthynas â'u datganiadau fodd bynnag mae tystion heddlu yn gyfrifol yn y pen draw am gynnwys eu datganiad, ac rydym yn disgwyl iddynt sicrhau eu bod yn fodlon bod eu datganiad yn agored a phroffeisynol addas, fel yr amlinellir ym mharagraff 4.3 uchod.

# 6. Diffyg cydweithrediad

6.1. Gall diffyg cydweithrediad tyst heddlu gynnwys, ond heb fod yn gydfyngedig i:

- Methiant i ateb cwestiynau rhesymol mewn dull amserol ac mewen digon o fanylder (i gynnwys lle ri fod yn berthnasol manylion o'r cred a ddelir yn onest a'r rhesymau dros y gred honno[12]) a/neu;
- Peidio â chyflwyno datganiad ar ffurflen MG11 o fewn amserlen a gytunir, a/neu
- Methiant i fynychu cyfarfod ag ymchwilwyr heb reswm da.

6.2. Os honnir diffyg cydweithrediad, gall tyst heddlu ddisgwyl:

- Cael amlygu unrhyw ddiffyg cydweithrediad canfyddedig: os yw ymchwiliwr y SAYH yn ystyried nad yw tyst yr heddlu yn cydweithredu, bydd yn esbonio'r seiliau i dyst yr heddlu y mae'n credu nad yw'r tyst wedi cydweithredu â'r ymchwiliad arnynt, beth sydd angen i'r tyst ei wneud i arddangos ei fod yn cydweithredu, a hefyd darparu esboniad o beth y gall y canlyniad fod os nad oes cydweithredu yn digwydd.
- Os yw diffyg cydweithredu yn parhau, lle mae'r tyst heddlu yn parhau i wasanaethu â'r heddlu gall y SAYH fynd â'r mater i lefel prif swyddog yn y llu perthnasol a/neu gyfeirio'r mater i'r Awdurdod Priodol[13].
- Gallwn hefyd gyfeirio at unrhyw ddiffyg cydweithredu yn adroddiad terfynol yr ymchwiliad.

[12] Er enghraifft lle mae tyst heddlu wedi defnyddio grym ar unigolyn neu unigolion. Bydd yr hyn sy'n gyfystyr â manylder digonol yn dibynnu ar yr amgylchiadau fodd bynnag dylai fod gwybodaeth ddigonol i ganiatáu i ymchwiliad gychwyn neu symud ymlaen, fydd fel arfer yn goilygu mwy na chadarnhau oriau dyletswydd yn unig ac ati.

[13] Yr Awdurdod Priodol ar gyfer unigolyn sy'n gwasanaethu â'r heddlu yw (a) ar gyfer prif swyddog neu brif swyddog dros dro, y corff plismona lleol ar gyfer ardal y llu heddlu mae'r swyddog yn aelod ohono; neu (b) mewn unrhyw achos arall, y prif swyddog â chyfarwyddyd a rheolaeth dros yr unigolyn sy'n gwasanaethu â'r heddlu. Bydd yr Awdurdod Priodol yn asesu'r mater a gall gofnodi honiad ymddygiad yn erbyn y tyst mewn perthynas â thoriadau posibl o'r safon broffesiynol yn ymwneud â dyletswyddau a chyfrifoldebau y cyfeirir atynt uchod. Bydd hyn wedyn yn destun asesiad ac ymchwiliad posibl.

Cyhoeddwyd Gorffennaf 2022

**© Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (2022)**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai lle nodir yn wahanol.

Nid yw hyn yn cynnwys deunydd ar y wefan hon fel deunydd sy'n perthyn i drydydd partïon. Rhaid cael caniatâd i ddefnyddio deunydd o'r fath gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith neu i ofyn am yr adroddiad hwn mewn fformat arall, gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd:

**Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (SAYH)**
**10 South Colonnade Canary Wharf London E14 4PU**
Tel: **0300 020 0096**
E-bost: **enquiries@policeconduct.gov.uk**
Gwefan: **www.policeconduct.gov.uk**
Neges degstun: **18001 020 8104 1220**

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg
We welcome telephone calls in Welsh